# CYNGOR

## (*CANOLFAN DDINESIG PORT TALBOT*)

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Mercher, 22 Rhagfyr 2021**

| | |
|---|---|
| **Y Maer:** | **Councillor J.Warman** |
| **Y Dirprwy Faer** | **Councillor J.D.Morgan** |
| **Cynghorwyr:** | A.R.Aubrey, S.Bamsey, D.Cawsey, C.Clement-Williams, M.Crowley, O.S.Davies, R.Davies, C.Edwards, J.Evans, S.E.Freeguard, C.Galsworthy, W.F.Griffiths, J.Hale, S.K.Hunt, J.Hurley, C.James, H.N.James, C.J.Jones, H.Jones, J.Jones, L.Jones, R.G.Jones, S.Jones, D.Keogh, S.A.Knoyle, E.V.Latham, A.Llewelyn, A.R.Lockyer, J.Miller, S.Miller, R.Mizen, S.Paddison, S.M.Penry, D.M.Peters, S.Pursey, S.Rahaman, P.A.Rees, S.Renkes, S.H.Reynolds, A.J.Richards, P.D.Richards, M.Spooner, A.J.Taylor, R.L.Taylor, D.Whitelock, C.Williams, A.Wingrave, R.W.Wood a/ac A.N.Woolcock |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | S.Curran, C.Griffiths, A.Hinder, A.Jarrett, H.Jones, K.Jones, N.Pearce, M.Shaw a/ac J.Woodman-Ralph |
| **Cynrychiolwyr o'r Gwasanaeth Cyfieithu:** | Present |

---

1. **CROESO A GALW'R RHESTR**

   Croesawodd y Maer bawb a oedd yn bresennol a galwyd yr enwau.

2. **CYHOEDDIADAU'R MAER**

   Croesawodd y Maer y Cynghorydd Huw Jones yn ôl, ar ôl cyfnod diweddar o afiechyd.

Roedd y Maer yn falch o hysbysu'r cyngor fod Stella Orrin a Jake Dorgan wedi cael eu hethol fel Aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru, gan gynrychioli Aberafan a Chastell-nedd yn y drefn honno.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

4. **COFNODION Y CYFARFOD/YDD BLAENOROL A GYNHALIWYD AR 29 MEDI 2021**

**PENDERFYNWYD:** Cadarnhau bod cofnodion 29 Medi 2021 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

5. **CYNLLUN CYMORTH TRETH Y CYNGOR 2022 - 2023**

**PENDERFYNWYD:** Ar ôl rhoi sylw dyledus i sgrinio'r Asesiad Effaith Integredig, y dylid cytuno ar y canlynol mewn perthynas â sefydlu Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23:

(a) Mabwysiadu Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 fel y'u diwygiwyd ymhellach gan Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2022 ac unrhyw ddiwygiadau dilynol a all fod yn ofynnol gan ddeddfwriaeth mewn perthynas â Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2022.

(b) Cymeradwyo cadw'r elfennau dewisol presennol mewn perthynas â'r Cynllun Rhagnodedig:

(i) Ni fydd unrhyw gynnydd yn y cyfnod ôl-ddyddio ar gyfer pob hawliwr yn cael ei roi ar waith o'r 3 mis safonol a gynhwysir yn y Cynllun Rhagnodedig.

(ii) Ni fydd unrhyw gynnydd yn y cyfnod gostyngiad estynedig ar gyfer pob hawliwr yn cael ei roi ar waith o'r 4 wythnos safonol sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Rhagnodedig ar

hyn o bryd.

(iii) Cymhwyso diystyriad 100% ar gyfer Pensiynau Anabledd Rhyfel, Pensiynau Rhyfel Gwŷr a Gwragedd Gweddw ar gyfer pob hawliwr.

6. **CYNLLUN BIOAMRYWIAETH LLEOL 2021**

| | |
|---|---|
| **PENDERFYNWYD:** | Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig, y dylid cymeradwyo'r canlynol:<br><br>1. Y Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth (2020-2023) fel y'i cyflwynwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad a ddosbarthwyd.<br><br>2. Y gweithdrefnau cyhoeddi fel a nodir yn yr adroddiad.<br><br>3. Rhoi awdurdodiad i'r Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd wneud y trefniadau angenrheidiol i'r cyngor ddod yn llofnodwr Datganiad Caeredin ar Fioamrywiaeth Fyd-eang. |

7. **CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD (CDLLN) 2021 - 2036 CYTUNDEB CYFLAWNI**

**PENDERFYNWYD:** Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig, y dylid cymeradwyo'r canlynol:

1. Cytundeb Cyflawni newydd y Cynllun Datblygu Lleol, fel a gyflwynir yn Atodiad 2 yr adroddiad a ddosbarthwyd ac a gymeradwywyd ac a gyflwynwyd yn ffurfiol i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo.

2. Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad

Cynaliadwyedd Integredig (ICA), fel y nodir yn Atodiad 4 i'r adroddiad a ddosbarthwyd.

3. Sefydlu Gweithgor Aelodau a chytuno ar Benawdau Telerau, fel a nodir yn Atodiad 5 i'r adroddiad a ddosbarthwyd.

## 8. DEDDF GAMBLO 2005 - ADOLYGIAD O'R POLISI GAMBLO

**PENDERFYNWYD:** Ar ôl ystyried yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Asesiad Sgrinio Effaith Integredig:

1. Cymeradwyo'r Polisi Gamblo diwygiedig, a nodir yn atodiad 1 i'r adroddiad a ddosbarthwyd.

2. Ailfabwysiadu "polisi dim casino".

## 9. CREU CYNLLUN DEISEBAU CYNGOR CASTELL-NEDD PORT TALBOT

**PENDERFYNWYD:** Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Sgrinio Effaith Integredig, dylid cymeradwyo Cynllun Deisebau Cyngor Castell-nedd Port Talbot, fel y nodwyd yn Atodiad 2 i'r adroddiad a ddosbarthwyd.

## 10. CYNLLUN TGCH YR AELODAU A PHOLISI DEFNYDDIO'R RHYNGRWYD

**PENDERFYNWYD:** Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Sgrinio Effaith Integredig, y dylid cymeradwyo Polisi TGCh diwygiedig yr Aelodau (gan gynnwys Polisi Defnyddio'r Rhyngrwyd) fel y nodwyd yn Atodiad 1.

## 11. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2020 - 2021

**PENDERFYNWYD:** Nodi Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwyr 2020-2021, ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol.

## 12. DOSRANNU SEDDI'R PWYLLGOR YMHLITH GRWPIAU CYMUNEDOL AC AELODAETH Y PWYLLGOR (I DDILYN)

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo'r newidiadau canlynol i ddyraniad seddi ar bwyllgorau cyngor i'r grwpiau gwleidyddol:

Grŵp Llafur:

Tynnu'r Cynghorydd R Taylor fel aelod o'r Pwyllgor Cynllunio

Tynnu'r Cynghorydd S M Penry fel aelod o Bwyllgor Craffu'r Cabinet.

Penodi'r Cynghorydd R Taylor i'r Pwyllgor Cofrestru a Thrwyddedu a'r Pwyllgor Deddfau Trwyddedu a Gamblo (yn lle'r Cynghorydd C James)

Grŵp Annibynnol:

Penodi'r Cynghorydd C James i'r Pwyllgor Cynllunio a Phwyllgor Craffu'r Cabinet.

13. **ESGUSODEB AR GYFER ABSENOLDEB**

Tynnwyd yr adroddiad hwn yn ôl o gael ei ystyried yn y cyfarfod.

14. **HYSBYSIAD O GYNNIG O DAN ADRAN 10 O RAN 4 (RHEOLAU GWEITHDREFNAU) CYFANSODDIAD Y CYNGOR**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

15. **CWESTIYNAU GAN AELODAU, GYDA HYSBYSIAD, DAN REOL 9.2 O REOLAU GWEITHDREFNAU'R CYNGOR**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

16. **EITEMAU BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

**CHAIRPERSON**